

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)

Tachwedd 2022



1. Cefndir

Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)¹ yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Masnach Ryngwladol.
2. Mae teitl hir y Bil yn nodi mai diben y Bil yw:

"Galluogi gweithredu Penodau caffael y llywodraeth o gytundebau masnach rydd y Deyrnas Unedig ag Awstralia a Seland Newydd, a gwneud darpariaeth arall mewn cysylltiad â hwy."

3. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil wedi gorffen ei Gyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
5. Ar 25 Mai 2022, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.²
6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig³ a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a

¹ Y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), fel y'i cyflwynwyd (Bil 009 2022-23)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), Mai 2022

³ Ar 30 Mehefin 2022, fe wnaeth Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ysgrifennu at y Llywydd i ddweud, yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, y byddai'n cadw llygad ar y Memorandwm ond nad oedd yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn ei gylch.

Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 29 Medi 2022.⁴ Ar 20 Medi 2022, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes ymestyn y dyddiad cau hwn i 1 Rhagfyr 2022.⁵

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

7. Mae paragraffau 11 i 23 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch pa rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- Cymal 1 – Pŵer i weithredu Penodau caffael y llywodraeth;
- Cymal 2 – Darpariaeth bellach ynglŷn â phŵer;
- Cymal 3 – Dehongli;
- Paragraffau 1 i 4, 6 a 9 o Atodlen 1 – Darpariaeth sy'n ymwneud ag Awdurdodau Datganoledig a Senedd Cymru;
- Paragraffau 1(b), 2(3) a 3 o Atodlen 2 – Rheoliadau o dan Adran 1.

8. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau'r Bil a amlinellir uchod, ac yn ogystal â hynny, cymal 4 (Ehangder, cychwyn a theitl byr) ac Atodlen 2 paragraff 4 (ynghylch arfer pŵer adran 1 a ragwelir).⁶

9. Cymal 1 yw'r ddarpariaeth allweddol yn y Bil sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r awdurdod priodol (sef Gweinidogion Cymru yng Nghymru). Bydd y pwerau hyn yn galluogi un o Weinidogion y Goron neu Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi effaith i benodau caffael y llywodraeth yn y cytundebau masnach rydd (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd), ac at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â'r penodau hynny.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

10. Yn ôl y Memorandwm, mae angen y Bil er mwyn galluogi gweithredu'r rhwymedigaethau caffael a nodir ym Mhennod 16 o'r cytundebau masnach rydd y mae'r DU wedi cytuno arnynt gydag Awstralia a Seland Newydd (y Cytundebau). Rhaid i'r Bil fod mewn grym cyn i'r

⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach \(Awstralia a Seland Newydd\)](#), Mehefin 2022

⁵ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach \(Awstralia a Seland Newydd\)](#), Medi 2022

⁶ [Bil Masnach \(Awstralia a Seland Newydd\)](#), Nodiadau Esboniadol, Mai 2022, Atodiad A

Cytundebau ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri unrhyw rwymedigaethau a nodir yn y Cytundebau.⁷

11. Mae cymal 1 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r rhwymedigaethau caffael y Llywodraeth yn y DU o dan y Cytundebau.⁸

12. Mae cymal 2 yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaethau y gellid eu gwneud drwy reoliadau o dan gymal 1 pan fo angen, er enghraifft, darpariaeth ganlyniadol. Mae cymal 2 hefyd yn cyflwyno Atodlenni 1 a 2 sydd, yn y drefn honno, yn nodi cyfyngiadau ar y defnydd o'r pŵer gan awdurdodau datganoledig (a ddiffinnir yng nghymal 3 fel Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac adran yng Ngogledd Iwerddon) ac yn darparu ar gyfer sut mae rheoliadau o dan gellir gwneud cymal 1.

13. Mae rhan 1 o Atodlen 1 yn disgrifio'r amgylchiadau pan gaiff awdurdod datganoledig ddefnyddio'r pŵer yng nghymal 1 i wneud rheoliadau. Yn benodol:

- mae paragraff 1 yn darparu na chaiff awdurdod datganoledig wneud darpariaeth o dan gymal 1 oni bai bod y ddarpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig yr awdurdod datganoledig (fel y'i diffinnir ym mharagraff 6);
- mae paragraff 2 yn darparu y bydd angen cydsyniad Gweinidog y Goron os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud darpariaeth gan ddefnyddio'r pŵer yng nghymal 1 ac y byddai angen cydsyniad ar y ddarpariaeth fel arall pe bai'n cael ei gwneud o dan bwerau eraill;
- mae paragraff 3 yn darparu bod rhaid i reoliadau a wneir o dan gymal 1 gael eu gwneud ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth y DU os ydynt yn cynnwys darpariaeth(au) sydd wedi'u cwmpasu gan bŵer arall i wneud rheoliadau y mae'n rhaid ei arfer ar y cyd;
- mae paragraff 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain wrth arfer y pwerau yng nghymal 1, lle byddai'n ofynnol fel arfer i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywodraeth y DU wrth wneud y mathau hynny o newidiadau mewn deddfwriaeth.

⁷ Y Memorandwm, paragraff 5

⁸ Y Memorandwm, paragraff 6

14. Mae Atodlen 2 i'r Bil yn darparu bod yr holl bwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil yn arferadwy drwy offeryn statudol ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

15. Fodd bynnag, mae'r Bil i'w ddiddymu gan gymal 107 Bil Caffael Llywodraeth y DU (fel y'i cyflwynwyd), bil sydd hefyd yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.⁹ Bydd cymal 107 yn dod i rym drwy reoliadau i'w gwneud gan Lywodraeth y DU, ac ni fydd gweithdrefn graffu yn gymwys iddo.

16. Mae rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil wedi'u nodi ym mharagraffau 27 i 30 o'r Memorandwm. Mae paragraffau 27 a 28 yn nodi:

"Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen diwygio'r ddeddfwriaeth gaffael yng Nghymru i fodloni gofynion penodau caffael y llywodraeth yng Nghytundeb Masnach Rydd y DU-Awstralia a Seland Newydd. Byddai'r pwerau a roddir yn y Bil hwn yn sicrhau nad yw cyfraith caffael yng Nghymru yn peri i'r DU dorri'r Cytundebau cyn gynted ag y daw'r Cytundebau i rym.

Nid oes digon o amser i gyflwyno bil cyfatebol yn y Senedd ac felly, mewn egwyddor, rwy'n credu ei bod yn briodol i Senedd y DU ddeddfu ar gyfer Cymru yn yr achos hwn. Mae'r newidiadau arfaethedig hefyd yn gul o ran cwrdd ac wedi bod yn destun trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU."

17. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn nodi, er y bu gan swyddogion Llywodraeth Cymru ran yn y gwaith o ddatblygu'r polisi sy'n gwneud y Bil yn ofynnol, sef penodau caffael y llywodraeth yn y Cytundebau, nad oedd ganddynt ran yn y gwaith o ddatblygu'r Bil ei hun.¹⁰ Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi, pan ddaeth Llywodraeth Cymru i wybod bod Bil y DU yn cael ei ddatblygu, iddi ei gwneud yn glir i swyddogion Llywodraeth y DU na fyddai Bil a oedd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cydredol yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru.¹¹ Ychwanegodd, er bod swyddogion Llywodraeth y DU:

"wedi defnyddio amseriad ac effeithlonrwydd i ddechrau fel rheswm a chyfiawnhad dros gynnwys pwerau cydredol, nid yw'n glir pam mae DIT yn

⁹ Y Memorandwm, paragraff 10

¹⁰ Y Memorandwm, paragraffau 7-8

¹¹ Y Memorandwm, paragraff 8

credu y dylai'r Bil gynnwys pwerau cydredol yn unig. Gwelodd fy swyddogion y Bil drafft am y tro cyntaf ar 6 Mai."¹²

18. Mae'r Gweinidog yn nodi bod cynnwys pwerau cydredol yng nghymal 1 "yn groes i egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer biliau'r DU"¹³ a'i fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar 16 Mai i ofyn bod y Bil "yn hytrach yn cynnwys naill ai pwerau cyfatebol neu gydredol plws".¹⁴

19. Ym mharagraff 29 o'r Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod o'r farn na ddylai'r Senedd gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil:

"Fodd bynnag, ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad oherwydd er bod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, mae hefyd yn rhoi'r pwerau hynny i Weinidogion y DU heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru."

¹² Y Memorandwm, paragraff 8

¹³ Y Memorandwm, paragraff 25; Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021, Atodiad B - egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU

¹⁴ Y Memorandwm, paragraff 26

2. Ein barn ni

- 20.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf 2022.¹⁵
- 21.** Ynghyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 25 Awst 2022¹⁶ yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion, a chafwyd ymateb ar 28 Awst 2022.¹⁷
- 22.** Fe wnaethom ni gytuno ar ein hadroddiad yn ein cyfarfod ar 24 Hydref 2022.

Sylwadau cyffredinol

23. Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil, fel y nodir yn y Memorandwm. Trafodir y materion hyn isod.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod yr holl gymalau ac Atodlenni a restrir yn y Memoranda yn dod o fewn diben yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

24. Fodd bynnag, nodwn fod y Gweinidog yn cytuno â'n barn fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil.¹⁸ O ran cymal 4, dywedodd y Gweinidog ei bod yn "ddarpariaeth dechnegol nad yw'n amgodiio dewisiadau polisi o sylwedd... ac am y rheswm hwn nid ydym fel mater o arfer yn cynnwys y mathau hyn o gymalau o fewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol."¹⁹

25. Rydym o'r farn, er mwyn osgoi amheuaeth, y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4. Wrth ddod i'r farn hon, nodwn fod Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad.

Casgliad 2. Rydym o'r farn fod cymal 4 a pharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil hefyd o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifiwyd yn Rheol Sefydlog 29.

Argymhelliad 1. Dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4 a pharagraff 4 o Atodlen 2 hefyd, a dylai unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil eu nodi yn unol â hynny.

¹⁵ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Gorffennaf 2022](#)

¹⁶ [Llythyr at Weinidog yr Economi](#), 28 Gorffennaf 2022

¹⁷ [Llythyr gan Weinidog yr Economi](#), 25 Awst 2022

¹⁸ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 8

¹⁹ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 8

Pwerau cydredol

26. Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU yn nodi "na ddylai Biliau'r DU greu pwerau cydredol". Mae diffiniadau o bwerau cydredol a chydredol plws (o'r canllawiau i staff Llywodraeth Cymru²⁰) i'w gweld ym Mluch 1:

Blwch 1: Diffiniadau

Pŵer cydredol yw pŵer y gellir ei weithredu:

- (a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu
- (b) gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn gweithredu pwerau mewn perthynas â'r DU gyfan; neu mewn perthynas â Chymru a Lloegr).

Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau mewn perthynas â Chymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu.

Pŵer "cydredol plws" yw math arbennig o bŵer cydredol y gellir ei weithredu:

- (a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu
- (b) yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un ai i roi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru

27. Mae'r canllawiau i staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr egwyddor a ganlyn:

Egwyddor 8: Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol iawn a dylai timau sicrhau y bydd eithriad mesurau yn berthnasol fel na fydd angen cydsyniad wrth eu dileu (i warchod cymhwysedd deddfwriaethol), a'u bod yn gydredol plws (i warchod cymhwysedd gweithredol).

²⁰ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021

28. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn rhannu ein pryderon ynghylch y defnydd cynyddol o bwerau cydredol ym Miliâu'r DU a bod hyn wedi'i esbonio'n glir i swyddogion Llywodraeth y DU.²¹

29. Mewn ymateb i'n cwestiwn yn gofyn o dan ba amgylchiadau y byddai'r Gweinidog yn derbyn gweld pwerau cydredol plws i wneud rheoliadau yn cael eu cynnwys yn y Bil, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae'r rhannau yn y Bil TANZ y mae angen cydsyniad Senedd Cymru arnynt yn ymwneud â'r pwerau sydd eu hangen i roi penodau caffael FTAs y DU-Awstralia a'r DU-Seland Newydd ar waith. Mae cwmpas y pwerau hyn yn gymharol gul a bu trafod helaeth ar y newidiadau fyddai eu hangen i roi'r ddau gytundeb ar waith rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cymru cyn penderfynu arnynt yn y negodiadau. Oherwydd cwmpas y pwerau a chan y cafwyd trafod digonol yn y negodiadau masnach ar y newidiadau deddfwriaethol yr oedd eu hangen i roi'r amodau caffael a gynigiwyd ar waith, byddwn yn barod i dderbyn y pwerau gwneud rheoliadau cydredol plws yn y Bil TANZ os nad yw Llywodraeth y DU yn fodlon o hyd rhoi pwerau cyfwerth."*²²

30. Dywedodd y Gweinidog hefyd y byddai "fan leiaf" angen i Lywodraeth Cymru "weld pwerau cydredol plws ... yn y Bil TANZ ... cyn y gallem argymhell Senedd Cymru i roi ei chydsyniad..."²³

31. Rydym yn ystyried mai'r opsiwn gorau sydd ar gael fyddai cynnwys pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil TANZ sy'n gyfwerth â'r rhai a ddarparwyd i Weinidogion y DU. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynghylch y pwynt hwn a'r amgylchiadau lle byddai'n fodlon derbyn cynnwys pwerau "cydredol plws" i wneud rheoliadau. Yn hyn o beth, rydym hefyd yn nodi bod paragraff 9 o Ran 2 o Atodlen 1 i'r Bil TANZ yn diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* fel y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth i ddileu'r pŵer cydredol heb gydsyniad Gweinidog y Goron.

²¹ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 7

²² Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 6

²³ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 1

Deddfu gan ddefnyddio Bil Llywodraeth Cymru

32. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog pam na ellid dod â Bil cyfatebol i Fil Llywodraeth y DU gerbron y Senedd:

"C10. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn amser-gritigol ac rydych wedi dweud nad oes digon o amser ar gael i gyflwyno Bil cyfatebol yn y Senedd. Beth oedd y rhwystrau rhag cyflwyno Bil Brys, a fyddai wedi goresgyn y ffaith bod pwerau cydredol wedi'u cynnwys yn y Bil?"

I ddechrau, roedd yr Adran Fasnach Ryngwladol yn credu y byddai Ail Ddarlleniad y Bil TANZ yn Nhŷ'r Cyffredin yn digwydd cyn toriad yr haf ac y byddai angen bwrw ymlaen yn gyflym â'r Bil TANZ pan fyddai dau dŷ Senedd y DU wedi ailymgynnull. Y rheswm am hyn yw bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn ei lle er mwyn i'r ddau gytundeb masnach allu dod i rym. Felly, nid oeddem yn credu y byddai digon o amser i gyflwyno Bil Brys, nac y byddai'n ddull cymesur o ystyried cwmpas y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth.

Ni fyddai bil Senedd Cymru ohono'i hun yn goresgyn problem pwerau cydredol yn y Bil TANZ. Gallai bil Senedd Cymru roi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu yng Nghymru, ac felly ni fyddai angen i'r Bil TANZ wneud hynny; ond ni allai bil Senedd Cymru rwystru'r Bil TANZ rhag rhoi pwerau i Weinidogion y DU wneud newidiadau deddfwriaethol yng Nghymru. Os mai dyna benderfyniad Senedd y DU, y canlyniad terfynol fyddai pwerau cydredol, er mewn Deddfau gwahanol."²⁴

33. Rydym yn nodi barn y Gweinidog bod angen i'r Bil symud ymlaen yn gyflym drwy Senedd y DU er mwyn caniatáu i'r Cytundebau ddod i rym. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bil yn parhau yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ac nid yw wedi mynd drwy Dŷ'r Arglwyddi eto.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y Bil drwy Senedd y DU.

34. Mae'r Memorandwm yn nodi "Nid oes digon o amser i gyflwyno bil cyfatebol yn y Senedd". Er nad oes eglurhad o'r rheswm dros y farn hon, rydym am dynnu sylw eto, fel mater o egwyddor, ei bod yn amhriodol i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dadleuon yn ymwneud ag

²⁴ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, cwestiwn 10 a'r ymateb iddo

amserlen y Senedd ar gyfer craffu neu gapasiti i gyfiawnhau defnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn maes datganoledig.²⁵

35. O ran defnyddio gweithdrefn Bil Brys y Senedd, rydym yn nodi barn y Gweinidog.

36. Fodd bynnag, hoffem dynnu sylw at ail baragraff ymateb y Gweinidog i gwestiwn 10 ein llythyr, sydd wedi'i atgynhyrchu uchod.

37. Mae memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Banc Seilwaith Llywodraeth y DU yn nodi:

"Datganoli yw ewyllys sefydlog etholwyr Cymru o hyd, a'n safbwynt ni yw diogelu pwerau'r Senedd..."²⁶

38. Rydym o'r farn ei bod yn ymddangos bod y farn a fynegwyd gan y Gweinidog yn ail baragraff ei ymateb i gwestiwn 10 yn mynd yn groes i'r datganiad hwn.

39. Drwy fynd ar drywydd Bil ar wahân i Gymru, byddai Gweinidogion Cymru, yn amodol ar farn y Senedd, wedi gallu creu'r pwerau sydd eu hangen arno yn hytrach na gorfod negodi i'w cynnwys yn y Bil TANZ.

40. Er ein bod yn derbyn na allai Bil i Gymru atal y Bil TANZ rhag rhoi pwerau i Weinidogion y DU roi newidiadau deddfwriaethol ar waith yng Nghymru, fodd bynnag, byddai'n newid natur y sgwrs rhwng llywodraethau ac, yn arwyddocaol, natur y cwestiwn sy'n cael ei holi i'r Senedd ynghylch cydsyniad. Efallai na fydd y mater hwn o bwys mawr o ystyried y bwriad i ddiddymu'r Bil TANZ pe bai'n cael ei ddeddfu (oherwydd darpariaethau ym Mil Caffael Llywodraeth y DU) ond mae'n parhau i fod yn ddilys fel pwynt o egwyddor.

Darpariaethau penodol yn y Bil

41. Fe wnaethom ni hefyd nodi bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth yr Alban ar y Bil yn tynnu sylw at y ffaith bod y pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 1 yn darparu ar gyfer rhoi'r cytundebau ar waith fel y gallent gael eu diwygio yn y dyfodol. Ei barn oedd bod hyn yn golygu bod yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol bellach yn cael ei osgoi os caiff y cytundebau hyn eu hadnewyddu, ond ar draul y ffaith nad yw Senedd yr Alban yn gwybod beth

²⁵ Gweler y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad Blynyddol 2021/22](#), Hydref 2022, paragraffau 54-55

²⁶ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#), Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022, paragraff 47

y gallai'r diwygiadau hynny yn y dyfodol fod ar adeg rhoi ei chydsyniad.²⁷ Mae memorandwm Llywodraeth yr Alban yn mynd ymlaen i ddweud:

"This seems a particularly unnecessary aspect to the power given that the agreements have only been very recently signed, and that this Bill is expected to be repealed by the Procurement Act, the Bill for which was also introduced on 11 May, which will provide a replacement general power in relation to the implementation of the procurement chapters of free trade agreements. That will be a power limited to ensuring that equal treatment obligations are given effect, with rule changes still needing primary legislation."²⁸

42. Fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog felly ynghylch pa mor addas ac angenrheidiol yw'r pwerau i wneud rheoliadau yng nghymal 1 sy'n galluogi Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau sy'n adlewyrchu cynnwys y Cytundebau fel y gallent gael eu diwygio yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol gallu defnyddio'r pŵer yng nghymal 1 i ymdrin â diwygiadau yn y dyfodol i Gytundebau Masnach Rhydd (FTAs). Mae'n bŵer yn unig i wneud rheoliadau ynghylch penodau caffael yr FTAs, felly ni chaiff effaith ar y Cytundeb cyfan. O ystyried hyd a lled yr hyn y mae penodau caffael FTAs ar y cyfan yn delio â nhw, yn ogystal ag yn y penodau hyn yn benodol, nid wy'n rhagweld bod fawr o berygl y gallai'r pŵer gael ei ddefnyddio mewn ffordd annisgwyl nac mewn ffordd gwbl anrhagweladwy. Ar sail hynny, rwy'n ystyried bod y pŵer yn ychwanegiad addas a defnyddiol at y Bil TANZ."²⁹

43. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y byddai cymal 1 yn gymwys i ddiwygiadau i benodau caffael y Cytundebau yn unig, yn hytrach na'r cytundebau yn eu cyfanrwydd, ac rydym yn nodi'r safbwynt y mae wedi'i gymryd. Fodd bynnag, fel egwyddor cyffredinol, nid ydym o'r farn y dylid defnyddio pwerau i wneud rheoliadau mewn Biliau fel ffordd o adlewyrchu newidiadau i

²⁷ Llywodraeth yr Alban, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Masnach \(Awstralia a Seland Newydd\)](#), paragraff 10

²⁸ Llywodraeth yr Alban, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd), paragraff 11

²⁹ Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 5

gytundebau rhyngwladol yn y dyfodol, gan fod hyn yn atal gwaith craffu. Rydym wedi codi pryderon tebyg yn ymwneud â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol.³⁰

44. Mewn ymateb i gwestiwn arall gennym, eglurodd y Gweinidog y broses ar gyfer diddymu'r Bil, a dywedodd:

*"Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw rôl i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru o ran diddymu'r Bil TANZ."*³¹

45. Er ein bod yn nodi'r safbwynt, byddem yn amlygu mai un canlyniad yn sgil y dull a fabwysiadwyd yw na fydd gan y Senedd rôl o ran diddymu deddfwriaeth sylfaenol o fewn ei gymhwysedd deddfwriaethol.

Cysylltiadau rhynglywodraethol

46. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd nad oedd wedi cael ymateb i'w lythyr dyddiedig 16 Mai 2022³² a hefyd:

*"Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig cynnal rhagor o drafodaethau ynghylch unrhyw welliannau. Bwriedir cynnal ail ddarlleniad y Bil TANZ yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Medi. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod wrthi'n ystyried sut i fynd â pethau yn eu blaen yng ngoleuni ein pryderon."*³³

47. Pan wnaethom ofyn a oedd wedi defnyddio'r mecanweithiau sy'n rhan o'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd i ddatrys materion sy'n peri pryder, dywedodd y Gweinidog:

*"Ailadroddais fy mhryderon am y Bil TANZ yn fy nghyfarfod â'r Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach, Penny Mordaunt AS, ar 24 Mai. Rwyf nawr yn aros i glywed oddi wrth Lywodraeth y DU sut y mae am fynd i'r afael â 'mhryderon."*³⁴

48. Rydym yn siomedig nad oedd y Gweinidog, ar adeg ysgrifennu atom ym mis Awst, wedi cael ateb i'w lythyr dyddiedig 16 Mai.

³⁰ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal](#), Rhagfyr 2021, paragraffau 59 i 72

³¹ Lythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 11

³² Lythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 2

³³ Lythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 3

³⁴ Lythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Awst 2022, ymateb i gwestiwn 4

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei ymgysylltiad â Llywodraeth y DU o fewn tair wythnos ar ôl dyddiad gosod yr adroddiad hwn.